Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prifarolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 15/05/2020 |
| **Pwnc / Subject:** | Arolwg Rhanddeiliaid CBAC 2020 |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb i'r Ymgynghoriad – Arolwg Rhanddeiliaid CBAC 2020**

**Arolwg Rhanddeiliaid CBAC 2020 – Ymateb Estyn**

**Cyfathrebu (c7-9)**
Yn gyffredinol, dyma'r prif ffyrdd y mae cyrff arholi yn cyfathrebu â'n sefydliad:

- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb
- rhith gyfarfodydd
- negeseuon e-bost
- cylchlythyron pwnc
- y ffôn
- digwyddiadau i randdeiliaid

Mae Estyn yn croesawu unrhyw ymgysylltiad â CBAC trwy'r dulliau uchod.

**Rhesymau dros gyfathrebu (c10-12)**
Mae Estyn yn ymgysylltu â CBAC trwy ymateb i ymgynghoriadau, rhoi adborth a chyngor, mynychu cyfarfodydd i randdeiliaid allanol a derbyn diweddariadau ynghylch cymwysterau. Byddem yn croesawu ymgysylltiad mwy rheolaidd â swyddogion pwnc.

**Rôl CBAC (c13-17)**
Mae gennym ddealltwriaeth dda iawn o rôl a phwysigrwydd CBAC ac rydym yn gwerthfawrogi'r wybodaeth y mae'r Prif Weithredwr wedi'i darparu i AEM. Mae adborth o'n gwaith thematig dros gyfnod yn awgrymu bod arweinwyr ysgolion ac athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgysylltu â swyddogion CBAC yn rheolaidd trwy gysylltiad uniongyrchol, gweminarau a gweithgareddau dysgu proffesiynol.

**Manylebau (c18-24)**
Yn ein hadroddiad thematig yn gwerthuso cymwysterau newydd, a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2018, dywedom:

*Mewn mwyafrif o achosion, mae adborth gan ysgolion yn dangos y cafwyd cymorth addas gan CBAC wrth baratoi ar gyfer y manylebau newydd. Mae adborth am gymorth a chyrsiau hyfforddi ar gyfer Cymraeg a Bagloriaeth Cymru yn arbennig o gadarnhaol. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, roedd adrannau o'r farn fod y cymorth a'r hyfforddiant yn llai effeithiol. Yn gyffredinol, mae eu beirniadaethau yn ymwneud â diffyg eglurder ynglŷn ag asesu, enghreifftiau annigonol o safonau a chyngor anghyson mewn cyrsiau dilynol. Mae llawer o ysgolion yn nodi cost cyrsiau hyfforddi a chost cyflenwi staff fel rhwystrau rhag cyfranogi'n llawn mewn hyfforddiant.*

*Mae llawer o ysgolion wedi gwneud defnydd da o'r gronfa werthfawr o gyn-gwestiynau ar wefan CBAC. Mewn lleiafrif o achosion, roedd ysgolion o'r farn nad oedd y papurau enghreifftiol a gynigiwyd yn adlewyrchu'r disgwyliadau yn y set gyntaf o arholiadau go iawn yn gywir. Teimlai ychydig o ysgolion na chafodd deunyddiau enghreifftiol ar gyfer Bagloriaeth Cymru eu darparu mewn pryd.*

*Mae'r mwyafrif o ysgolion yn gwerthfawrogi adroddiadau arholwyr pwnc CBAC. Defnyddiant y wybodaeth hon, ynghyd â data lefel eitemau, yn dda i nodi meysydd i'w gwella ac i wneud newidiadau dilynol i'w haddysgu.*

*Roedd adborth o golegau yn llai cadarnhaol nag adborth o ysgolion. Ar y cyfan, mynegodd colegau bryder bod cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth gyda CBAC yn araf a bod diffyg eglurder. (t.49)*

Yn ein gwerthusiad o gyrsiau Safon Uwch, a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2018, dywedom:

*Mae dryswch cyffredinol ymhlith athrawon ac arweinwyr ysgol a choleg ynghylch argaeledd amserol adnoddau a deunyddiau ym mhob pwnc Safon Uwch a phwy sydd â chyfrifoldeb am hyn yn y pen draw. Mae llawer ohonynt wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r ffaith fod cyrsiau a deunyddiau CBAC ar gael yn hwyr i gefnogi eu haddysgu, fel manylebau arholiadau a phapurau enghreifftiol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn pynciau fel astudiaethau crefyddol, hanes, Ffrangeg ac addysg gorfforol ac ar gyfer deunyddiau cyfrwng Cymraeg. Mae cwynion hefyd am brinder deunyddiau cymorth a natur amwys cynlluniau marcio mewn ychydig o bynciau (t.39)*

**Deunyddiau Cymorth (c25-27)**

Gweler ein hadborth ynghylch manylebau, sydd hefyd yn cyfeirio at ddeunyddiau cymorth.

**Y berthynas rhwng sefydliadau (c28-34)**

Mae Estyn o'r farn bod CBAC yn rhanddeiliad pwysig. Mae ymgysylltu â CBAC yn agwedd bwysig ar ein gwaith thematig. Mae CBAC yn mynd ati i gyfathrebu â ni yn addas am faterion sy'n berthnasol i ni ac mae'n briodol o agored a chydweithredol yn y ffordd y mae'n mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae CBAC yn ein cynnwys mewn trafodaethau ar yr adeg gywir ac mae'n deall amcanion strategol a diben ein sefydliad.

**Arweiniad (c35-42)**

Yn gyffredinol, cytunwn fod naws y wybodaeth, yr arweiniad a'r cyngor y mae CBAC yn eu darparu yn briodol ac yn gyson. Mae'n glir ac yn hygyrch. Rydym yn edrych ar eich cyfrif swyddogol ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol, fel Facebook a Twitter, ac yn ei ddilyn. Mae'r wybodaeth a'r cyngor a gawn o gyfarfodydd a thrafodaethau yn ddefnyddiol, er nad yw'r ffordd orau o gysylltu ag unigolion, a phwy ddylai fod yn rhan o unrhyw drafodaeth, bob amser yn glir i ni. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar lefel swyddog pwnc.

**Gwaith yn y dyfodol (c43-47)**

Rydym wedi gwerthfawrogi cyfarfod â swyddogion CBAC i drafod dysgu proffesiynol i athrawon. I'n cynorthwyo ni yn y dyfodol, hoffem archwilio sut y gallwn gydweithio i sicrhau bod yn staff yn meddu ar y ddealltwriaeth ddiweddaraf o faterion allweddol sy'n ymwneud â chymwysterau a CBAC fel sefydliad.

O ran cymwysterau ac asesiadau sy'n paratoi dysgwyr orau at y dyfodol, teimlwn fod angen i asesiadau cymwysterau fod yn drylwyr iawn a sicrhau na ellir hyfforddi disgyblion i lwyddo mewn cymhwyster mewn byr iawn o dro.

**Dilyn i fyny (c48-49)**

Byddai Estyn yn hapus i gymryd rhan mewn cyfweliad dilyn i fyny, dros y ffôn.